

Hip-hip-hwrê! i'r lleygwyr!

“Wedi hynny, penododd yr Arglwydd ddeuddeg a thrigain arall, a’u hanfon allan o’i flaen, bob yn ddau.” (adn. 1)

Beth am ddarlenn Luc 10:1–24 ac yna myfyrio

Yn y testun heddiw, mae Iesu’n dewis saith deg a dau o bobl (hynny yw, saith deg a dau o lleygwyr) a’u hanfon allan bob yn ddau, gan roi iddynt yr un comisiwn ag a roddodd i’w ddisgyblion (Luc 9:1–5). Dywedodd wrthynt am fod yn ofalus o’u hymarweddiad: “Pa dŷ bynnag yr ewch i mewn iddo, dywedwch yn gyntaf, ‘Tangnefedd i’r teulu hwn’” (adn.5). Dywedodd wrthynt hefyd ei fod gyda hwy, yn barod i’w nerthu, a bod y rhai fyddai’n gwrando arnyn nhw yn gwrando arno ef (adn.16). Aeth y saith deg a dau allan, ac wedi cyfnod o amser, dyma’r disgyblion yn dod yn eu hôl gan ddweud: “ Arglwydd, y mae hyd yn oed y cythreuliaid yn ymddarostwng inni yn dy enw di. (adn. 17).

Mae yna enghraifft yn y Testament Newydd o achlysur pryd yr oedd y disgyblion yn methu â bwrw allan un o’r cythreuliaid oedd wedi meddiannu bachgen (Mathew 17:14–16). Roedd y bachgen yma wedi ei feddiannu gan y Diafol, ac eto, yn ystod eu gweinidogaeth, roedd y lleygwyr yn medru bwrw allan y cythreuliaid hyn gyda rhywyddineb. Fe fu i lwyddiant y saith deg a dau ddwyn llawenydd mawr i galon yr Arglwydd. Yn ôl adnod 21, mae’n gweddïo fel hyn: “Yr wyf yn dy foliannu di, o Dad, Arglwydd nef a daear, am i ti guddio’r pethau hyn rhag y doethion a’r deallusion, a’u datguddio i rai bychain.” Yr oedd yna rym newydd wedi ei ddarganfod ar gyfer pobl leyg.

Mae Philip yn lleygwr amlwg sydd yn cael sylw yn Llyfr yr Actau. Pregethodd yr Efengyl yn Samaria, ac fe ddaeth llawer i gredu yn Iesu Grist trwy ei weinidogaeth yno (Actau 8:5–8). Philip hefyd a rannodd yr Efengyl gyda’r Ethiop ac, yn ôl traddodiad beth bynnag, y gŵr yma fu’n gyfrifol am sefydlu’r Eglwys yn Ethiopia. Mae Harnack, yr hanesydd eglwysig, yn disgrifio buddugoliaethau cynnar Cristnogaeth fel rhai oedd yn cael eu sylweddoli trwy law “cenhadon anffurfiol” – ei air ef i ddisgrifio pobl leyg. Rwy’n teimlo fel gorfoleddu yn agored gan weiddi: “Hip-hip! hwrê! i’r lleygwyr!” Heb y rhain, ni fydd yna Eglwys gref i’r dyfodol.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Num.11:16–29; Actau 8:26–39; 2 Cor.3:1–18; 5:11–21

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth wêl ein cymdogion o Gristnogaeth?
2. Beth yw cyfrifoldebau’r llysgennad Cristnogol?

Gweddi

O Dad, rwy’n gofyn i ti i’n hysbrydoli fel pobl wedi ein hordeinio ac fel lleygwyr i wneud dy waith di yn dy ffordd di. Mae gen ti bwrpas ar gyfer y ddau – y rhai a ordeiniwyd i hyfforddi, y lleygwyr i gyhoeddi. Cynorthwya’r ddau i wneud dy ewyllys. Yn enw Iesu. Amen.